# Deddf Addysg (Cymru) 2014

**2014 dccc 5**

**RHAN 2**

Y GWEITHLU ADDYSG

*Cofrestru'r gweithlu addysg*

**10 Cymhwystra ar gyfer cofrestru**

(1) Mae person yn gymwys i'w gofrestru os yw'r person yn bodloni'r amodau yn yr adran hon.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y person—

(a) yn bodloni'r disgrifiad o gategori cofrestru ac wedi cwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod sefydlu sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 17, neu

(b) yn bodloni unrhyw ofynion ar gyfer cofrestru dros dro a bennir drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru.

(3) Yr ail amod yw nad yw'r person—

(a) wedi ei wahardd rhag gweithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47)),

(b) yn ddarostyngedig i orchymyn disgyblu a wneir o dan y Ddeddf hon ac yn rhinwedd y gorchymyn hwnnw mae'r person yn anghymwys i gofrestru, neu

(c) wedi ei anghymhwyso rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i'r categori cofrestru y mae'n ceisio cofrestru ar ei gyfer mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

(4) Y trydydd amod yw bod y Cyngor, ar adeg cofrestru, yn fodlon bod y ceisydd yn berson addas i'w gofrestru yn y categori cofrestru y mae'n ceisio cofrestru ar ei gyfer.

(5) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (4), rhaid i'r Cyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio is-adran (3) i bennu unrhyw seiliau ychwanegol o ran anghymhwystra sy’n angenrheidiol neu’n hwylus yn eu barn hwy.

(7) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (6) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau neu gyrff sy’n briodol yn eu barn hwy.